ADNABOD KNOWING ARDUDWY

Haf 2009

Dau ddisgybl o Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth, yn derbyn gwobr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) gan Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

Llun: Nigel Hughes

Beth a gyflawnwyd?

Sgyrsiau a darlithoedd - 37 (cyfanswm cynulleidfa 1038+)
Gweithdai - 13
Cynadleddau - 2 (ac un i ddilyn)
Teithiau tywys 12 - (a dwy i ddilyn)
Ymweliadau - 14
Cefnogi mudiadau a hyrwyddo Adnabod Ardudwy a'r Gymdeithas - 9
Grwpiau casglu enwau caeau - 4
Ysgolion - Ymweliadau â'r Archifdy yn Nolgellau - 3; gwaith dosbarth - 3
Teithiau maes - 5
Darllediadau Radio a theledu - 8
Erthyglau i gylchgronau - 9
Gwobr Cymru Wledig 2009
Gwefan Adnabod Ardudwy
Cylchlythyr - 2

Prosiect Ardudwy - testun diolch a chyfle i'r dyfodol

WRTH I GYNLLUN Ardudwy gyrraedd ei aeddfedrwydd daeth yr adeg yn addas i ddechrau gwerthfawrogi'r cyfan a gyflawnwyd, ac ar yr un pryd i ddechrau gweld y gall y profiad hwn fod yn ddylanwad parhaol, nid yn Ardudwy yn unig, ond ledled y sir hanesyddol, os byddwn effro i'r cyfle y mae'r Cynllun wedi ei agor o'n blaen. Y mae hyn yn gosod cyfrifoldeb ar Gymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd, oherwydd, os daeth y Cynllun o dan adain y Gymdeithas, bu'r Gymdeithas ei hun ar ei hennill yn fawr o'r hyn a gyflawnwyd. Un person, Dr Rhian Parry, biau'r clod am yr ysbrydoliaeth a roes fod i'r syniad dechreuol, a'r weledigaeth a'r dyfalwch a sicrhaodd bod yr amcan gwreiddiol hwnnw yn cael ei gyflawni mewn dull sydd gymaint o destun diolch i'r Gymdeithas.

Wrth galon y llwyddiant y mae'r modd yr enynnwyd diddordeb pobl cymdogaethau Ardudwy yn eu treftadaeth eu hunain yn ei wahanol agweddau. Roedd enwau lleoedd yn wreiddyn symbyliad academaidd Dr Parry ei hun, a death yr enwau yn destun chwilfrydedd y lliaws. Arweiniodd yr enwau yn eu tro at eu cysylltiadau hanesyddol, a plethwyd hanes ac archaeoleg ynghyd mewn brodwaith diwylliannol cyfoethog.

Ac nid rhywbeth sy'n perthyn i

i tud 2

Heritage Treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

parhad o dudalen 1

orffennol diflanedig mo'r pethau hyn, oherwydd daeth yr enwau, a'r mannau yn Ardudwy sydd ynglwm wrthynt, yn rhan o drysorfa amgylchedd y presennol, rhywbeth y gellid dod i'w adnabod drwy gerdded llwybrau'r fro. Roedd dyfarnu'r wobr i Gynllun Ardudwy ar yr achlysur nodedig yn Harlech yn gydnabyddiaeth loyw o'r modd yr oedd y Cynllun wedi clymu gofalon a diddordebau hanes a'r amgylchedd yn dynn wrth ei gilydd.

Rhoddwyd Cynllun Ardudwy ar waith dan nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Ni ellir disgwyl i'r nodded hwnnw barhau, ond fe gyflawnwyd digon yn Ardudwy i fod yn arweniad i weithgarwch y dylem geisio ei ymestyn dros rannau eraill Meirionnydd a'i gefnogi ymhob modd y gallwn. Y mae yn ddyletswydd ar y Gymdeithas Hanes i hyrwyddo'r gweithgarwch hwn.

Oherwydd y mae treftadaeth gyfoethog gennym ym Mhenllyn ac Edeirnion, Tal-y-bont ac Ystumanner, ac yn y cymdogaethau hyn hefyd y mae llawer clwster o wŷr a gwragedd yn arddel yr hyn sydd o'u cwmpas, a'r reddf ganddynt i chwilio'r hanes a'i drysori. Teulu a chartref, mynydd a llwybr, eglwys a chapel: mae pob un yn fan cychwyn i antur o ddarganfod a deall. Gadewch inni fagu hyder newydd y gallwn, ar sail profiad Cynllun Ardudwy, fynd ymlaen i arloesi dulliau newydd o weithredu, gan roi nerth newydd i'r Gymdeithas a'i galluogi i wneud ei chyfran i gyfoethogi ein presennol drwy dynnu mwyfwy ar drysorfeydd gwerthfawr ein gorfennol. Y mae arnom ddyled fawr i'r rhai a gyfrannodd mor hael i'r llwyddiant nodedig yn Ardudwy, ac y mae'r ddyled yn ein gosod ninnau yn ein tro dan ddyletswydd i ymroi o'r newydd.

Yr Athro J.Beverley Smith
Llywydd, Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Gwobrau YDCW

CAFWYD CYFARFOD GWOBRWYO nodedig yn Theatr Harlech ar 29 Ebrill eleni dan nawdd cangen Meirionnydd o Ymgyrch Diolgelu Cymru Wledig(YDCW) i gydnabod llwyddiant y prosiect Adnabod Ardudwy. Talwyd cydnabyddiaeth i Dr Rhian Parry am arwain y prosiect ac am ei hymchwil academaidd i enwau ffermydd a chaeau Ardudwy. Cydnabyddwyd hefyd gyfraniad Pwyllgor Rheoli'r prosiect am hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfoeth archaeolegol, hanesyddol a diwylliannol yr ardal ac am lunio gwefan unigryw i gyflwyno'r cyfoeth hwn yn fyd eang. Ac fe ddyfaranwyd gwobrau i ddisgyblion Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudaeth; Ysgol Llanbedr; Ysgol Tanycsatell, Harlech ac Ysgol Dyffryn Ardudwy am eu cyfraniad i lwyddiant y prosiect.

Y gwŷr gwadd ar yr achlysur oedd Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a'r Athro Gwyn Thomas. Meddai Sue Townsend, Cadeirydd YDCW

Dr Rhian Parry yn derbyn gwobr YDCW gan Yr Athro Gwyn Thomas.

Meirionnydd: "Mae Adnabod Ardudwy yn chwarae rhan allweddol bwysig yn natblygiad y 'Synnwyr o Le' trwy gynyddu ymwybyddiaeth ein cymunedau o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol yr enwau caeau ac enwau ffermydd cyfoethog sydd gennym'.

Aelodau o Bwyllgor Rheoli Adnabod Ardudwy a chynrychiolwyr Partneriaid y prosiect yn seremoni wobrwyo YDCW.

Sue Townsend (chwith), Cadeirydd YDCW Meirionnydd, a gwahoddedigion eraill yn y seremoni wobrwyo.

Lluniau: Nigel Hughes

Ail-lunio Cefn Gwlad Cymru c.1500 – 1850

DAETH GRŴP BYCHAN ynghyd ym Mhlas Tanybwlch ar 27 Ebrill i fwynhau gweithdy yng ngofal y Dr Colin Thomas, sy'n arbenigwr ar ddaearyddiaeth economaidd Meirionnydd. Cau Tir Comin oedd y pwnc dan sylw. Mae'n faes eang a phwysig oherwydd bu'n fodd i newid yn sylweddol dirwedd Ardudwy a sawl ardal arall yng Nghymru, rhwng 1500 ac 1850, heb son am yr effaith a gafodd ar werin gwlad.

Soniodd Dr Thomas am y crafangu a fu am dir Abaty Cymer ar ôl diddymu'r Mynachlogydd yn y cyfnod Tuduraidd a'r dosbarth proffesiynol llewyrchus o gyfreithwyr a dyfodd yn sgil yr ymrafael a ddilynodd. Ond ar y cyfan bu'r Cau yn y cyfnod hwn yn fendithiol i Gymru gan hyrwyddo magu a gwerthu da byw yn y marchnadoedd yn Lloegr a dod â chyfoeth i gefn gwlad drwy gymorth y porthmyn. Dyma'r cyfnod pan ddechreuodd y ffermydd dyfu'n stadau breision. Mae cyfres o ddogfennau a adnabyddir fel Crown Rentals ar gael sy'n rhoi llawer o wybodaeth i ni am Ardudwy o 1623 ymlaen oherwydd maent yn cynnwys enwau'r plwyfi, perchnogion y rhandiroedd a'r rhenti..
Ond canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1760 a Deddf Cau Tir Comin 1845 a wnaeth Dr Thomas oherwydd gellir cywain llawer o wybodaeth o'r dogfennau perthnasol sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn. Eglurodd gefndir gwleidyddol ac economaidd y cyfnod. Soniodd am flynyddoedd cythryblus Rhyfeloedd Napoleon yn Ewrop ar ddiwedd yr 18fed ganrif a'r gwarchae o'r môr a orfododd Prydain i gynhyrchu mwy o fwyd gartref. Dyma hefyd gyfnod y Chwyldro Diwydiannol ac roedd galw cynyddol am fwyd i'r bobl a lifai i'r trefi newydd.

Gwella dulliau amaethu trwy rannu'r tir comin yn rhandiroedd a throi'r ffriddoedd agored yn dir âr oedd nod y Cau. Caewyd hyd yn oed yr ucheldir yn barseli o randiroedd, ac mae'r cloddiau unionsyth yn esgyn dros fryniau uchel i'w gweld hyd heddiw. Roedd hyn oll yn creu gwaith dros dymor byr ond gwastraff egni dynol ydoedd mewn gwirionedd gan na fyddai tir na hinsawdd yr ucheldir yn addas i dyfu cnydau.

Pe bai pentref cyfan neu blwyf yn eiddo i un tirfeddianwr gallai gau tir comin trwy ddeddf Seneddol breifat. Fel arall deuai nifer o dirfeddianwyr at ei gilydd a chytuno i weddnewid y dirwedd a strwythur bywyd gwledig. Er bod hon yn broses hirach nid oedd yn anodd pasio'r deddfau oherwydd

Dr Colin Thomas

cyn 1832 yr uchelwyr yn unig a gai bleidleisio mewn etholiadau seneddol.

Prin oedd yr unigolion, y ffermwyr bychain, a elwodd o'r Cau; esgus oedd y cyfan i'r tirfeddianwyr gronni stadau anferth. I'w dwylo nhw yr aeth y tiroedd a chollodd gwerin gwlad ei hawl i gynhaliaeth werthfawr trwy bori eu hanifeiliaid, torri coed tân a chodi eu tai unnos ar y comin. Pan ddaeth y Rhyfeloedd i ben a phan ddechreuwyd mewnforio bwyd o'r Byd Newydd lleihaodd y galw am rawn. Ymhen 30 mlynedd yr oedd stadau anferth Gogledd Cymru mewn dyled ac yn aml heb etifeddion. Daeth diwedd ar eu llewyrch.

Soniodd Dr Thomas am ddatblygiad mapiau a phwysigrwydd gwaith manwl y syrfewyr, llawer ohonynt yn anhysbys i ni heddiw. Gall eu mapiau roi gwybodaeth werthfawr am blwyfi, pentrefi, tenantiaid ac enwau caeau ardal. O gymharu mapiau stad o 1790 dyweder â'r map Degwm yn 1840 gwelir yn eglur na fu dim gwelliant yn ansawdd y tir dros gyfnod o hanner canrif.

Cawsom dywydd braf yn y prynhawn i fynd ar daith i gyffiniau Corsygedol a Moelfre er mwyn astudio rhai o nodweddion y Cau yn y maes a gweld adfeilion ffermydd Bryn y Bel a Gors Uchaf. Wedyn cawsom gip ar Ystumgwern a sylwi ar y newidiadau a fu yn nhiroedd y Tywysogion Cymreig wedi i Edward 1 gludo neuadd y tywysogion i gastell Harlech. Gwelsom fel yr oedd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn enwau'r caeau sydd i'w gweld ar y map hyd heddiw.

Rhan bwysig o'r gweithdy, fel yn achos eraill a gynhaliwyd dan nawdd y prosiect, oedd rhoi gwybodaeth i ni am y ffynonellau sydd ar gael yn ein harchifdai ac yn y Llyfrgell Genedlaethol ac sy'n ein galluogi i ymchwilio ymhellach i hanes ein hardal ein hun. Bu'r gweithdy yn fodd i ni ddeall hanes ein hardal a dod i'w hadnabod yn well drwy ymchwilio ymhellach.

Nan Griffiths

Llun: Rheinallt Llwyd

Dr Colin Thomas yn annerch rhai aelodau o'r grŵp ger Ystumgwern

Olion o'r amgau tir ar lethrau'r Moelfre uwchlaw Corsygedol

Cofnodi'r adfeilion

Elfed Lewis

UN O DALYSARN yw Elfed Lewis ac ar ôl blynyddoedd mewn swydd gyfrifol iawn yn Rossendale ymddeolodd i Dalybont, cartref ei wraig Olwen. Mae wrth ei fodd yn cerdded llwybrau'r ardal ac oedi i dynnu llun o ambell furddun adfeiliedig. 'Dwi'n leicio gweithio hefo pen main main fel mod i'n medru manylu ar bob carreg a llechen,' eglurodd. Mae Elfed hefyd wedi cynllunio llyfryn sy'n cynnwys nifer o deithiau tywys lleol sy'n mynd heibio rhai o'r murddunod mae wedi eu darlunio. Dyma ychydig o enghreifftiau o waith cywrain Elfed Lewis.

Mae gwaith Elfed yn hynod o werthfawr gan ei fod yn cofnodi cyflwr y murddunod hyn yn 1996-97. Ers hynny mae rhai o'r adeiladau wedi dirywio ymhellach ac eraill wedi eu hadnewyddu a'u newid yn sylweddol. 'Canodd fy ffrind a'r bardd, y diweddar Ieuan Jones, gywydd mawl i Ardudwy ac ysbrydolwyd fi gan y darn hwn a'r cyfeiriad at ein hen furddunod –

Cydio maes wrth faes a fu,
Tawelwch lle bu teulu.
Pa sawl annedd sydd heddiw
Yn ein bro yn furddun briw?

Ac ychwanegodd Elfed, 'os gwrandawn yn astud yn nhawelwch rhai o'r llwybrau, mae sŵn traed ein hynafiaid i'w clywed yn atseinio dros y canrifoedd'. Dyma ŵr a bardd sy'n gweld ac yn deall tirwedd ac yn ymfalchio yng nghrefftwaith yr hen saer maen.

Pant Corlan yr Wyn

Pant Corlan yr Wyn yw un o'r murddunod mae Elfed wedi ei gofnodi'n gain. 'Y traddodiad fan hyn ydi fod merch o dras wedi ei llofruddio ychydig yn is i lawr na Bwlch y Rhiwgyr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae craig o garreg wen a elwir yn Ladi Wen yn agos i'r fan lle bu'r llofruddiaeth ac mae dwy gorlan islaw lle, yn ôl traddodiad, y lladdwyd baban bach ar yr un adeg. Mae nhw'n dweud mai Sion Dafydd Las (John Davies, c1665-95) o Lanuwchllyn, bardd teulu Nannau, a gyfansoddodd yr alaw Pant Corlan yr Wyn i gofio'r achlysur.' Saif Pant Corlan yr Wyn ychydig uwchben Egryn a Hendre Eirian ar wastadedd o dir mynydd heb fod ymhell o'r ffordd hynafol o Gorsygedol i Fwlch y Rhiwgyr.

Cofnodi'r adfeilion

Capel Ty'n Drain

Tu ôl i feudy Tyddyn y Llidiart mae'r capel. Mae trigolion hynaf yr ardal yn cofio am y capel fel lle cysegredig ac mae Olwen yn cofio ei mam yn sôn am fynd i eisteddfod yno. 'Arferai'r simdde ddod allan drwy'r corn a'r tân ar ganol y llawr.' Yn anffodus, nid oedd y tir yn perthyn i aelodau'r capel a bu'n rhaid ei gau gan fod y rhent mor uchel.

Adfail Llyn Dulun

'Mae 'na hen adfail bychan ar lan y llyn, ac wedi bod yn lloches i fugail ar ryw adeg mae'n siŵr. Mae ynys fechan greigiog heb fod ymhell o'i lan, a elwir yn Allor Goch. Dywedir y gall y tywydd newid a throi'n law pe teflir dŵr ar y graig hon', meddai Elfed.

Dysgu am enwau ei gaeau ar y wefan


Gorwel Hughes

MYFYRIWR YNG NGHOLEG Llysfasi yw Gorwel Hughes, fferm Aberdeunant, Llandecwyn. 'Roeddwn i'n syrffio'r we ac wedi i mi 'Googlo' 'enwau caeau' dyma weld Adnabod Ardudwy yn dod i fyny. 'Rown i wrth fy modd gweld mapiau Degwm plwyf Llandecwyn (1840) a dyna le 'roedd ein fferm ni, Aberdeunant.'

Mae'r teulu'n byw yma ers ugain mlynedd ac er bod cysylltiadau drwy fam Gorwel â Thyn y ffrwd yn yr ardal, 'doedd na ddim cysylltiad teuluol ag Aberdeunant eu hun. Felly, nid oeddynt fel teulu'n gwybod enwau'r caeau. Maent wedi dotio at rai o'r enwau fel 'Werglodd y nant', 'Buarth bach', 'Llain las', 'Cae Tŷ ucha' ac yn enwedig 'Dalar Catherine Lloyd'. Mae 'Werglodd y nant' yn enw hawdd ei ddeall ac mae'n ddisgrifiad da o'i leoliad a'r math o dir sydd yno. Ond mae peth dirgelwch ynglŷn ag eraill. Beth tybed oedd enw'r 'Tŷ uchaf' a phwy oedd Catherine Lloyd? Mae Gorwel ar dân i ddarganfod mwy am y tiroedd hyn ac yn bwriadu chwilio am olion murddunnod a buarthau sydd ddim i'w gweld yn amlwg heddiw ond maent ar fapiau'r Degwm.

Dywedodd Gorwel fod y diweddar Wil Williams, Caerwych, gynt wedi enwi dau furddun sydd ar y tir, sef Glan Hofer a Blaen y ddol. 'Tasa fo heb ddweud wrthym ni, mi fasau'r enwau wedi eu colli'. Y cyntaf oedd cartref Dorti un a anfarwolwyd yn ei bro drwy stori a chwedl. Bwriad Gorwel yw chwilota am hanesion lleol sy'n ymwneud ag Aberdeunant a'r cylch. 'Mi fedra i weld ar y wefan bod rhai caeau wedi newid ychydig, rhai wedi mynd yn un cae mawr. Hefyd mae na olion hen ffordd yma, pentwr o gerrig gwastad a mwy o goed wedi tyfy. Dwi am fynd ati i gerdded y caeau a chymharu'r mapiau Degwm a'r awyrluniau.' Dyma ŵr ifanc sy'n ymfalchïo yn hanes ei dir ac un sy'n gobeithio dod o hyd i waith yn ei ardal.

[*Gobeithiwn roi cyfle i Gorwel ac eraill i gyfrannu lluniau a gwybodaeth at ffeiliau'r plwyf ar wefan Adnabod Ardudwy. Wedyn bydd pawb yn medru dysgu mwy am y plwyf hynod hwn. Cadwch eich llygaid ar y wefan ac os fydd rhywun â hanesion am Dorti, rhowch wybod i ni.* ***Gol***]

Darllen Hen Ddogfennau

CYNHALIWYD GWEITHDY ARBENNIG o lwyddiannus a phoblogaidd yn Archifdy Meirionnydd ar 4 Mawrth 2009 dan arweiniad Dr Susan Davies, Prifysgol Aberystwyth. Mae Dr Davies yn hanesydd canoloesol o fri ac yn archifydd a'i phwnc oedd 'Darllen hen ddogfennau'. Mae'r sawl sy'n ymddiddori mewn hanes lleol a hanes teulu yn gwybod fod llawer o wybodaeth berthnasol ar gael mewn hen ddogfennau yn unig a'r rheiny'n aml mewn llawysgrifen anghyfarwydd. Rhoes Dr Davies ragarwewiniad manwl i arddulliau'r gwahanol 'lawiau' (Llys, Ysgrifennydd, Italig) a ddefnyddid ar wahanol gyfnodau hanesyddol a phwysleisiodd bwysigrwydd meistroli'r sgil o ddehongli byrfoddau mewn hen ddogfennau.


Engraifft o lawysgrifen mewn siartr o ddiwedd y 13eg ganrif

Dr Susan Davies

Profiad Athrawes

Disgyblion Ysgol Cefn Coch yn Abergafran

MAE DROS FLWYDDYN erbyn hyn ers i ni ddechrau ar ein rhan ni o'r prosiect Adnabod Ardudwy yma yn Ysgol Cefn Coch.Fel rhan o'u cwricwlwm Hanes, blwyddyn 5 oedd yn edrych ar yr agwedd o hanes yr ardal leol, felly penderfynwyd canolbwyntio'r gweithgarwch ar y dosbarth yma.

Fel athrawes sydd ddim yn byw yn yr ardal y mae'n dysgu ynddi yr oedd meddwl dechrau ar y gwaith yn eithaf brawychus oherwydd y diffyg gwybodaeth gefndirol oedd gennyf fy hun am hanes a daearyddiaeth yr ardal, ond diolch i arweiniad y cyd-lynydd Dyniaethau Mrs Marnel Edwards ac ymweliadau gan Rhian a Dilwyn o'r archifdy fe'm gosodwyd ar ben ffordd gyda chwestiwn perthnasol a difyr i ymchwilio iddo. Byddent yn ymchwilio i sut y byddai pobl yn croesi dros y Traeth Mawr a'r Traeth Bach cyn adeiladu Pont Briwet a'r Cob.

Wedi cynllunio a mynd ati i ddidoli dogfennaeth y credwn fyddai'n addas i waith ymchwil y plant, penderfynais mai'r unig agwedd i'w gymryd oedd y byddwn i yn dysgu gyda'r plant ac y byddem yn rhyng-weithio yn ngwir ystyr y gair! Cafodd y plant a minnau brofiadau bendigedig, yn bennaf o gael mwynhau y gwaith maes a'r ymweliadau oedd yn dod â'r gwaith mapiau a'r lluniau a'r darllen a wnaethpwyd yn y dosbarth yn fyw. Ymweliad arbennig iawn oedd yr un a wnaethom â chartref Mrs Nan Griffiths yn Rhos, Minffordd, ble cawsom groeso heb ei ail, a chael gwrando ar straeon a chwedlau am fyddinoedd a drwgweithredwyr yn croesi , a boddi, wrth geisio croesi'r tywod peryglus! Roedd cael y cyfle i gerdded y llwybrau a nodwyd ar fapiau yn dod â'r cyfan yn fyw wrth i'r plant gael ymdeimlad gwirioneddol o arferion y gwahanol gyfnodau.

Roedd brwdfrydedd y plant yn brawf o'u mwynhâd wrth ymwneud â'r prosiect wrth iddynt fynd ati i gasglu eu tystiolaeth eu hunain, yn straeon gan berthnasau a ffrindiau, lluniau a thrwy ymweliad hynod ddifyr â'r archifdy.

Bu cymryd rhan yn y prosiect yn brofiad gwerth chweil i'r plant a minnau, gan ddechrau ar uned o waith y mawr obeithiwn fydd yn cael ei ymgorffori yng Nghynllun Hanes yr ysgol yn flynyddol o hyn allan.

Esyllt Iorwerth

Sylwadau disgyblion Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth

YN DILYN EU taith i Lanfihangel-y-traethau ac ymweliad â thafarn hynafol y Rhos ym Minffordd, ysgrifennwyd llythyrau o ddiolch i Mrs Nan Griffiths am ei chroeso. O ganlyniad i'r ymweliadau hyn a thaith gerdded i Abergafran, sef man cychwyn yr hen lwybr dros y Traeth Bach i eglwys Llanfihangel-y-traethau, daeth hanes y fro'n fwy byw i'r disgyblion. Dyma rai o'u sylwadau yn eu llythyrau.

'Diolch yn fawr am y croeso cynnes ddydd Mawrth. Roeddem yn teimlo fel ein bod adra! Diolch am y bisgedi. 'Roedd y storiâu yn ddiddorol a da iawn. Fe wnaethom ni eu mwynhau yn fawr. Mi fuasem yn hoffi dod yn ôl i'ch cyfarfod unwaith eto. Piti nad oedd cyfle i gael clywed y storiâu ysbryd. 'Roedd rhai ohonom yn teimlo yn rhyfedd iawn yn eistedd ar yr un setl â'r Hwntw Mawr! Roedd yr ymweliad wedi gwneud yr hanes yn fwy byw i ni'

'Roedd y straeon yn gyffrous iawn a rŵan mae gan ein grŵp ni fwy o wybodaeth am sut 'roedd croesi'r Traeth Mawr a'r Traeth Bach cyn adeiladu Pont Briwet a'r Cob. 'Rydym yn gweithio'n galed at brosiect Adnabod Ardudwy ac wedi bod yn yr Archifdy yn Nolgellau. 'Rydan i'n mwynhau dod i wybod mwy am hanes ein hardal.'

Chwilio am Ffynnon Bywyd

FE FYDDAI'R DIWEDDAR Ieuan Jones, Stabl Mail gynt yn falch iawn bod rhai o selogion Adnabod Ardudwy wedi dod o hyd i'r ffynnon fach ar ymyl llwybr Oes Efydd, Uwch Artro yng Nghwm Moch. Gwyddai mor werthfawr oedd hon i fugeiliaid ei blentyndod, i'r hen borthmyn a chyn hynny i'r masnachwyr cynnar a gludai greiriau cywrain o'r Iwerddon drwy Ardudwy. Ni wyddai am ei henw ond cofiai'n iawn am ei dŵr oer, melys.

Er bod yr enw wedi mynd ar goll ar lafar gwlad, mae cofnod dros ysgwydd at y ffynnon mewn hen hanes a gofnodwyd gan Morris Davies (Moi Plas) Trawsfynydd yn ei henwi - Ffynnon Bywyd.

Ar ddiwrnod braf ddiwedd Mai eleni trefnwyd taith fer o Nant Pascan, Llandecwyn i fyny'r llethr am Lwybr Uwch Artro a Chwm Moch. Cofnodwyd nifer o hen furddunnod ac olion cerrig ar y ffordd a defnyddiwyd yr wybodaeth ym mapiau Degwm ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

Rhed y llwybr o Nant Pascan dros y nant mae Edward Llwyd yn ei disgrifio o Foel Dinas i'r Glyn. Mae nifer o feini sylweddol eu maint yn ffurfio pontydd bychain drosti ar hyd ei thaith, pontydd sy'n tynnu sylw ac edmygedd o waith cywrain hen grefftwyr gwlad.

Mae llun un o'r pontydd hyn ar dudalen gartref ein gwefan. Wedi croesi hon a dilyn y llwybr i fyny Cwm Moch dewch, yn y man at yr hen ffynnon i'r chwith o'r llwybr. Gwelwyd hi gan lygaid barcud Bob Tibbett ac aethom ati i'w harchwilio'n ofalus er gwaetha'r mwsogl trwchus. Tua throedfedd sgwâr yw ei maint a'r dyfnder hyd at y penelin. Yn raddol cafwyd hyd i'w hymyl gwastad o gerrig a'i gwely o gerrig mân. Rhannwyd y gwaith o'i glanhau gan fod y dŵr yn annioddefol o oer! Gadawsom i'r ffynnon glirio.

Dim rhyfedd nad oedd yn hawdd i'w gweld. Mae'n ddisylw iawn a hawdd mynd heibio iddi pan fo'r mwsogl trwchus wedi cael pen rhyddid ac ychydig iawn o deithwyr heddiw sy'n manteisio ar ei rhin adfywiol.

Gorffwys ar y daith o Nant Pascan i Gwm Moch

Lleoli'r ffynnon yn llwyddiannus!

Cofnodi Hanes Llafar

Teresa Ross yn cyfweld Mrs Gwen Richards (100 oed), Lleiniau, Harlech gyda Tom Mort ar y camera.

MAE CYMDEITHAS HANES Harlech wedi bod yn cofnodi atgofion rhai o drigolion hyna'r gymdogaeth er rhai blynyddoedd bellach a thrwy hynny'n diogelu gwybodaeth leol unigryw rhag mynd i ebargofiant.

Cofnodir y cyfweliadau hyn ar ffilm a sain ac felly ceir dimensiwn gweledol gwerthfawr i'r hyn a gynhyrchir. A'r bwriad yn y pen draw yw golygu a thrawsysgrifio'r tapiau a chyhoeddi rhai honynt.

Trwy'r prosiect pwysig yma fe ddiogelwyd llawer o wybodaeth leol bwysig megis atgofion am gyngherddau a gynhelid yn y castell, y gwahanol

Cymdeithas Hanes Llandyrnog

MAE CYMDEITHAS HANES Llandyrnog yn weithgar ym mhlwyfi Llandyrnog a Llangwyfan, Sir Ddinbych ac eisoes wedi cyhoeddi llyfrynnau ar Arysgrifau mynwentydd eglwysi y ddau blwyf. Yn ogystal cyhoeddwyd ganddynt dwy gyfrol o Gofrestri Plwyf Landyrnog a chyfrol o hen luniau, *Trem yn ôl*.

Prosiect nesaf y Gymdeithas fydd cofnodi enwau caeau'r fro a hynny'n dilyn ymweliad gan Dr Rhian Parry fu'n son wrthynt am weithgarwch Adnabod Ardudwy. Yn y llun gwelir rhai o'r aelodau'n dechrau ymchwilio i enwau caeau'r trwy astudio Rhestrau a Mapiau'r Degwm 1839-41.

Aelodau o Gymdeithas Hanes Llandyrnog

Adnabod Ardudwy a'r dyfodol

ER FOD NAWDD ariannol y prosiect yn dod i ben ddiwedd Medi eleni gobeithiwn barhau gyda llawer o'r gwaith. Mae unigolion a grwpiau'n casglu a chofnodi enwau caeau ym mhlwyfi Llanfrothen, Llanelltyd, Ffestiniog, Maentwrog a threfgordd Nanmor, sy'n waith hynod o bwysig. Byddwn hefyd yn dal i roi sgyrsiau am bwysigrwydd enwau ffermydd a chaeau a sut mae canfod hanes drwyddynt. Daeth nifer o wahoddiadau ar gyfer 2010 o wahanol gymunedau ar draws Cymru a thu hwnt a bwriadwn gyfrannu at raglenni radio a theledu er mwyn ennyn diddordeb yn y pwnc ac i rannu ein profiadau ynglyn â'r prosiect gydag eraill sy'n dymuno gwneud cais am grantiau.

Bydd gwefan Adnabod Ardudwy yn parhau ac mae cynlluniau ar y gweill i'w gwneud yn fwy bywiog. Bydd yn cael ei diweddaru a gellir ei defnyddio i rannu a chasglu gwybodaeth lleol o bob math, fesul plwyf. Mae llawer o drysorau, ar ffurf lluniau, dogfennau a thystiolaeth lafar yn ymwneud â hen adeiladau,cymeriadau ac enwau lleoedd yn Ardudwy heb eu cofnodi'n ffurfiol fel y dengys stori llyfr cownt gof Talsarnau.

Am wybodaeth am ddatblygiadau yn y dyfodol cysylltwch â Rhian a Barry trwy'r wefan ac anogwch eraill i wneud yr un peth. Mae'r wefan yn eiddo inni oll, felly, gwnewch ddefnydd helaeth ohoni!

Grŵp Tregwylan

FLWYDDYN YN ÔL bu ychydig ohonom yn cerdded ar hyd yr hafn o'r enw 'Nant' sydd i'r gorllewin o eglwys Llanfihangel-y-traethau. Gyda ni roedd yr archaeolegwr Andrew Davidson o Ymddiriedolaeth Archaeoleg Gwynedd. Barn Andrew yw nad yw'n ganlyniad i waith dyn er y gallai fod wedi gwneud defnydd ohoni ar un adeg. Mae'n wir ddirgelwch.

Felly, ar awgrym Andrew, dyma geisio barn daearegwr. Awgrymodd Haf Meredydd, un o gefnogwyr y prosiect y dylem ofyn barn Dr Dyfed Elis-Gruffydd. Geomorffoleg rewlifol oedd maes ymchwil Dyfed. Argraff gyntaf Dyfed ar ôl ymweld yw, 'mai tirffurf naturiol ydyw, un a grëwyd, yn ôl pob tebyg, gan rym erydol afon danrewlifol a lifai tua'r de ar ddiwedd yr Oes Iâ ddiwetha.' Mae mwy, ond cadwch lygaid ar y wefan yn yr hydref i glywed mwy o'r hanes.

fathau o ffeiriau a geid yn lleol yn ogystal â manylion bywyd bob dydd unigolion mewn sawl galwedigaeth. Mae rhai o'r cyfweliadau yn son am gyfnod mor bell yn ôl a'r Rhyfel Byd Cyntaf ac yn darlunio cymdeithas sydd wedi llwyr ddiflannu erbyn hyn.

Gwaith cwbl wirfoddol fu hyn ar ran aelodau Cymdeithas Hanes Harlech ac maent yn defnyddio eu cyfarpar a'u hadnoddau eu hunain gan na lwyddwyd, hyd yn hyn, i sicrhau nawdd ariannol i'r prosiect. Ein gobaith yw y daw nawdd ariannol o rywle fel y gellir diogelu gwybodaeth leol amhrisiadwy rhag mynd i ddifancoll.

Treve Eddy
Cadeirydd, Cymdeithas Hanes Harlech

Aelodau o Gymdeithas Hanes Harlech ar daith gerdded yn yr ardal.

Llyfr Cownt Gof Talsarnau

TYNNWYD EIN SYLW at y llyfr gan Mrs Hefina Shah, Glyn Garth, Ynys Môn, a hynny mewn gweithdy dan nawdd Adnabod Ardudwy yng Ngwesty Tregwylan, Talsarnau eleni. Meddai Hefina, 'Dwi'n hynod o falch bod un llyfr wedi goroesi a bod cofnodion fy nhaid yn rhoi blas i ni ar y cyfnod hwn o'i fywyd a hefyd darlun o'r ardal.'

Llyfr cownt Griffith Roberts, ei thaid, sef tad ei mam ydyw. Mae'r cofnodion wedi eu rhestru bob yn fferm ac maent yn pontio'r cyfnod rhwng 1894 a 1904. Ganwyd Griffith ar 24 Tachwedd 1859, yn ail o chwech o blant i Griffith ac Elin Roberts, Tŷ Eiddew, Pwllheli. Gwelir o Sensws 1881 ei fod yn of ym Mhwllheli. Credir iddo symud i Dalsarnau yn fuan wedyn ac yn 1891 disgrifir ef fel 'gof feistr' (master blacksmith) yno. Ymddengys ei fod hefyd yn ŵr crefyddol a llawen. Ganwyd iddo ac i Elen ei wraig un ar ddeg o blant, rhai ohonynt hwythau'n ofaint yn eu tro. Bu farw Griffith yn 1939 ac fe'i claddwyd ym mynwent Soar.

Cynhaliai Griffith ddwy efail, sef ei 'Efail Uchaf' tua gwaelod nant Eisingrug a'r efail yn Nhalsarnau ar y ffordd i'r stesion lle gweithiai ei fab, John David. Deuai nifer fawr o ardalwyr yno am sgwrs fin nos mewn cyfnod pan na ddymunai'r dirwestwyr fynychu tafarn y Ship Aground.

Gwasanaethai Griffith ffermwyr a'r ardalwyr lleol eraill yn 1894 ac enwir 59 fferm gan gynnwys Llechwedd Du Mawr ac Erw Wen, plwyf Llandanwg. Roedd ei enillion yn 1894 yn £184 7s 5d a oedd yn swm sylweddol bryd hynny. Sylwer mai llyfr rhif 14 yw hwn a byddai'n wych dod o hyd i'r llyfrau blaenorol.

Ysgrifennwyd y cofnodion yn yr un llawysgrifen daclus a gwelir Cymraeg llafar, graenus yr ardal yn y manylion gyda'r gof yn ysgrifennu'n gywir gan dreiglo fel y byddai wrth siarad. Cofnodir 2 Bedol ond 4 Pedol. Defnyddir y llythyren 'd' gyda thro yn ei gynffon i ddynodi 'dd'. Er enghraifft, ceir 'byda' a 'phladur ryd'. Mae'n 'ffitio haearn byda (bydau) a stwffwl 3d'. 'Darnio swch' yn Ebrill 1895 am 1s 2d; 'pladyr ryd,' 4s 6d; 'strick ryd' 10d, a darnio monkey' 4d, y cyfan i fferm Fuches Wen.

Ceir yma nifer fawr o enwau ar offer amaethyddol y cyfnod. Yntau'r gof yn trwsio ac yn gwneud offer newydd at anghenion ei gymuned. Mae'n darnio 'swch a chwlltwr' am 2s 6d a gwneud coes sosban newydd am 8d i Gefngwyn. Er bod blas y tymhorau ar ei waith ymddengys ei fod yn brysur drwy'r flwyddyn. Pedoli sef gwneud a gosod pedolau yw ei brif waith. Yn ôl cyfrif un dyn (Edward Hughes) mae'n gwneud 'cylch berfa' a'i osod am 2s 8d ym mis Ebrill 1894 ac ym Mai yn gwneud 'pentan berfa' am 6d. Yng Ngorffennaf mae'n 'trwsio berfa' am 6s ac eto yn Awst a Medi yn eu tro. Ni wyddys os mai'r un ferfa ydoedd ond, mae'n amlwg fod Edward Hughes yn un diwyd a gweithgar!

Does dim gofod yma i wneud cyfiawnder â'r llyfr cownt ond mae erthygl hir i ddilyn a chroesawn unrhyw atgofion pellach. Diolch i Hefina am dynnu'n sylw at y llyfr ac i'w nith, Fiona, am roi'r wybodaeth deuluol. Beth am fynd ati i chwilio am y llyfrau eraill ferched?

Rhian Parry

Mrs Hefina Shah hefo llyfr cyfrifon ei thaid



Yr Efail a'r Ffatri Wlân yn rhan isaf Eisingrug c.1900

Griffith Roberts (1859-1939)

Cyhoeddwyd y cylchlythyr hwn gan Bwyllgor Rheoli Adnabod Ardudwy.
Golygydd: Rheinallt Llwyd.
Lluniau: Rhian Parry (oni nodir yn wahanol)
Dylunydd: Elgan Griffiths.

Cofiwch hefyd am ddigwyddiadau a drefnir gan Gymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd. Os ydych wedi mwynhau'r cylchlythyr hwn, beth am ymuno â'r Gymdeithas Hanes. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd yn Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau, LL40 2YF (01341 424682). Ceir manylion llawn hefyd ar wefan Adnabod Ardudwy.